**Adran Amgylchedd / *Environment Department***
**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /**
***Planning and Public Protection Service***
**Uwch Reolwr / *Senior Manager* - Gareth Jones**

ABC Lettings,
33, Stryd Fawr,
Porthaethwy,
Ynys Môn,
LL595EF

---

28-Feb-2018

**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (RHEOLI HYSBYSEBION) 1992**
***TOWN AND COUNTRY PLANNING (CONTROL OF ADVERTISEMENTS) REGULATIONS 1992***

**Ynglun a / *With regards to***: Arwyddion a byrddau 'To let' ym Mangor / *'To let' signs and boards in Bangor*

Annwyl Syr/Madam / *Dear Sir/Madam,*

Rwyf yn hynod o ddiolchgar i bawb a fynychodd y cyfarfod cychwynnol ar 29 Ionawr 2018, i drafod y toreth o arwyddion 'ar osod' sydd ym Mangor a hefyd i'r rhai na fedrai fod yno ond a fynegodd eu cefnogaeth i fynd i'r afael gyda'r mater.

Yn dilyn trafodaeth ddefnyddiol am y pryder am niferoedd yr arwyddion 'ar osod' a welir ar draws y ddinas, sy'n niferus iawn mewn rhai ardaloedd, roedd consensws cyffredinol ymhlith pawb oedd yn bresennol fod angen ac y dylid gwneud rhywbeth i fynd i'r afael gyda hyn. Er mwyn bod yn llwyddiannus cytunwyd fod angen i'r holl garfanau gydweithio gan ddilyn yr un rheolau.

Amlinellodd y drafodaeth beth oedd wedi digwydd mewn trefi a dinasoedd Prifysgol eraill a soniwyd am y gwaith a wnaed yng Nghaerdydd, Nottingham a Leeds. Yn atodol, er gwybodaeth, mae copi o'r gwaith a wnaed yng Nghaerdydd, Nottingham a Leeds.

Cefnogwyd mewn egwyddor cod gwirfoddol i arddangos arwyddion 'ar osod' ac esboniwyd y byddai hyn yn golygu mwy o waith gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghyd â chyfnod ymgynghori dilynol. Er y gellir cymryd camau i ffurfioli'r cod gwirfoddol (drwy gefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddyd Rheoliad 7) rydym yn gobeithio'n arw na fydd angen hyn os yw pob carfan yn glynu at y cod gwirfoddol a fabwysiadwyd.  Er hynny, os nad yw'r cod gwirfoddol yn llwyddiannus efallai na fydd unrhyw ddewis ond i wneud achos am gyfarwyddyd Rheoliad 7.

Bydd y cod gwirfoddol yn cael ei lunio gan yr ACLl a bydd yn cael ei ystyried fel dogfen fyw tan y caiff ei fabwysiadu fel y medrwn gael cod sy'n mynd i'r afael gyda'r broblem, wedi ei deilwra i Fangor ac y gallwch chwithau ei gefnogi. Awgrymwyd cyfnod prawf ond roedd yn glir nad oeddech chi'n credu fod

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

(TEMPLED LLYTHYR)

angen hyn ac unwaith y bydd wedi ei orffen dylid cyflwyno'r cod gwirfoddol heb gyfnod prawf na chyfnod rhagarweiniol. Nodwyd y byddai angen dyddiad dechrau i lynu at y cod yn ogystal â dyddiad terfynu i'r hen arwyddion gael eu tynnu i lawr, ac wedi hynny byddai camau gorfodaeth yn weithredol.

Hyderir y bydd drafft y cod gwirfoddol yn cael ei gylchredeg yn ystod Mawrth 2018, i chi roi eich sylwadau arno. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau peidiwch â phetruso i gysylltu â mi.

---

*I am extremely grateful to all of those who attended the initial meeting on the 29 January, 2018 to discuss the proliferation of 'to let' boards in Bangor and also to those who were unable to make it but who have expressed support to tackle the matter.*

*Following an useful discussion regarding the concern about the number of 'to let' boards displayed across the city, which is particularly concentrated in some areas, there was a general consensus between all those present that something needed to and should be done to tackle this issue. It was agreed that a successful outcome would require all parties to work together and to the same rules.*

*The discussion outlined what had happened in other University towns and cities and examples of the work carried out in Cardiff, Nottingham and Leeds were cited. A copy of the work that Cardiff, Nottingham and Leeds have undertaken is attached for your information.*

*A voluntary code for displaying 'to let' boards was supported in principle and it was explained that this would involve further work by the Local Planning Authority and a subsequent consultation period. Whilst steps can be taken to formalise the voluntary code (through Welsh Government support for a Regulation 7 Direction) it is sincerely hoped that this will not be necessary if all parties adhere to the adopted voluntary code. However, should the voluntary code prove unsuccessful there may be no option other than to make a case for a Regulation 7 Direction.*

*The voluntary code will be drafted by the LPA and is very much seen as a live document until its adoption so that we can achieve a code that addresses the problem, is tailored to Bangor and which can also be supported by you. A trial period was suggested but it was clear that you did not think this necessary and that the voluntary code, once finalised, should be introduced without a trial or lead in period. It was noted that a commencement date for adhering to the code would be required and also a cut-off date for the old style boards to be removed and whereby enforcement action would be instigated.*

*It is hoped that a draft of the voluntary code will be circulated for you to comment upon during March 2018. In the meantime, should you have and comments or suggestions please do not hesitate to contact me.*

Yn gywir / *Yours faithfully*

Uwch Reolwr / *Senior Manager* - Gareth Jones

Gwefan / *Web site*: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
*E-mail*: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / *phone*: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

(TEMPLED LLYTHYR)